

Karla yn Llandysul

Fe ges i ymwelydd yn ddiweddar. Nid rhywbeth anarferol iawn yng Nghymru, hyd yn oed ganol gacaf, ond roedd rhywbeth go arbennig am fy ymwelydd. Mae Karla, 23 oed, yn byw ym Melbourne, Awstralia. Mae hi'n astudio canu clasurol ac mae hi dim ond wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Gorffennaf y llynedd. Beth oedd rheswm ei ymweliad â Chymru? - i ymarfer siarad Cymraeg! Siaradais â Karla i geisio darganfod tipyn bach mwy am ei diddordeb yn y Gymraeg. Dyma ei stori hi.

Ei thaith dramor gyntaf erioed oedd ei heddiad o Melbourne i Abu Dhabi, o Abu Dhabi i Ddilyn, ac o Ddilyn i Gaerdydd, ond roedd Karla yn benderfynol ei bod hi eisiau dod.

"Des i i Gymru am chwech wythnos achos o'n i'n moyn ymarfer Cymraeg a gweld sut mae pobl yn byw yng Nghymru."

Gyda dim cysylltiad teuluol â Chymru o gwbl (o'r Eidal mae ei mam-gu a thad-cu), mae Karla yn meddwl y dechreuodd ei diddordeb yn yr iaith pan oedd hi'n ifanc iawn.

"Dw i'n meddwl dw i wedi clywed hi pan o'n i'n blentyn bach, ar y teledu neu rywle. O'n i'n meddwl oedd hi'n iaith hardd ac o'n i'n moyn dysgu hi. Maen nhw [ei theulu] yn meddwl mod i bach yn od, ond maen nhw'n hapus mod i wedi ffeindio rhywbeth sy'n ddiddorol i fi."

Dydy Karla ddim yn nabod unrhyw un sy'n siarad Cymraeg ym Melbourne, heblaw un dyn "ond so fe'n siarad llawer - dim ond 'pleasantries'" felly sut aeth Karla ati i ddsygu'r iaith a datblygu ei sgiliau llafar? Trwy'r We oedd yr ateb:

"Nes i gwglw 'cwrw Cymraeg' a daeth SSIW [SaySomethinginWelsh.com] yn gyntaf. Nes i drlo fe a nes i hoffi fe yn fawr iawn, felly dim eisiau ffeindio unrhywbeth arall. Dw i newydd ddarllen Modern Welsh gan Gareth King, ond mae'n anodd iawn!"

I ymarfer beth mae hi'n dysgu mae Karla yn defnyddio Skype, ond nid i ymarfer gyda phobl yng Nghymru chwaith! Trwy fforwm SSIW mae hi'n darganfod dysgwyr eraill dros y byd ac mae hi'n siarad â nhw.

"Weithiau dw i'n siarad gyda pobl ar y fforwm, un cwestiwn neu rywbeth. Ar ôl siarad am sbel, ni'n ffeindio bod diddordebau gyda ni yn yr un pethau ac ni'n cytuno i ddefnyddio Skype. Dim ond un ohonyn nhw [sydd] yn byw yng Nghymru - [mae] un fenyw yn Rwsia, dau ddyn yn yr Unol Daleithiau, ac yn dyn yn Lloegr. Maen nhw'n dysgwyr hefyd."

Fe aeth Karla i Gaerdydd yn gyntaf. Mae rhai pobl yn dweud y gall e fod yn anodd ffeindio pobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghaerdydd os nad ydych chi'n nabod y lle, ond doedd dim trafferth i Karla.

"Nes i aros gyda rhywun sy'n siarad Cymraeg, ac mae llawer o bobl sy'n byw yn yr un stryd gall siarad Cymraeg hefyd."

Ffrind Aled Samuel o 'Sam ar y Sgrin' sy'n cynnig llety trwy AirBnB ym Mhontcanna oedd gwestywr Karla.

Cwrddodd hi ag Aled a'i wraig, Rhian, a derbyniodd hi wahoddiad i ymweld â nhw nes ymlaen yn Llandcilo! O'r cychwyn cyntaf neidiodd Karla i mewn i'r byd Cymraeg.

Ond cyn dod i Gymru, dim ond gyda dysgwyr eraill oedd Karla wedi bod yn sgwrsio. Sut brofiad oedd hi siarad â Cymry iaith gyntaf am y tro cyntaf?

"Yn y dechrau, yn eitha anodd, achos o'n i'n trio deall bob gair. Pan ofynodd rhywun gwestiwn i fi, nes i anghofio popeth yn Gymraeg. Ond ar ôl siarad mwy a mwy gyda pobl, daeth e yn haws achos nes i ddechrau peidio deall popeth. Nes i ffeindio ffordd i wrando ar y geiriau o'n i'n gwybod a deall yr ystyr. Weithiau os mae pobl yn siarad rhy glou, neu ddim yn ddigon clir, mae'n fwy anodd ond dw i'n credu mod i wedi gwella yn ystod fy amser yng Nghymru."

Pan oedd hi yng Nghaerdydd cafodd Karla'r cyfle i gwrdd â rhai pobl eraill sydd yn dysgu trwy'r un cwrw ar-lein.

Trefnon nhw gyfarfod cymdeithasol yn y Mochyn Du ac aeth Karla i'r Barri i ddod i nabod rhai o'r dysgwyr yno hefyd. Ar ôl Caerdydd aeth hi i Abertawe, wedyn i Gefneithin i aros gyda dysgwr SSIW arall cyn dod i Llandysul am wythnos. Gofynnais iddi a oedd hi wedi bod yn defnyddio'r Gymraeg trwy'r amser.

Llawer o amser - dim yn Abertawe. Yno dim o gwbl, ond yng Nghaerdydd, Cefneithin, a Llandysul, dw i wedi bod yn ei defnyddio yn eitha aml."

Yn ystod yr wythnos yn Llandysul roedd Karla yn awyddus i ddal i siarad Cymraeg. Ar wahân ag un neu ddau air yn Saesneg bob hyn a hyn, defnyddiodd hi Gymraeg yr holl amser: i gael sgwrs mewn caffï yn Nhreffdraeth, i chwarae

dominos gyda Merched y Wawr Llandysul, i ganu yn Amgueddfa Wlân gyda Lowri Evans, i fynegu ei theimladau yn ystod noson arbennig o ganu plygain yng Nghapel Beulah, ac i fwynhau disgled yn 'Buon Appetito'.

Ond beth am y dyfodol? Dywedodd Karla ei hunan na fyddai hi'n cael unrhyw drafferth nawr i fyw ei bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ond oes ganddi gynlluniau i ddod yn ôl?

Dw i wedi penderfynu mod i'n moyr byw yng Nghaerdydd. Dw i'n hoffi'r bobl, ac mae'r lle'n hardd iawn. Mae llawer o bethau i wneud.

Hoffwn i astudio canu clasurol yn Gymraeg yn y brifysgol, ac hoffwn i symud i Gymru. Dw i wedi bod yn gwrandao ar lawer o gerddoriaeth yn Gymraeg ac dw i'n hoffi hi yn fawr iawn. Does dim byd fel na yn y byd. Nes i gymryd rhan yn yr Eisteddfod SSiW yn Gymraeg. Sa i wedi dysgu llawer o gerddoriaeth yn Gymraeg ond dw i'n moyr canu mwy yn yr iaith.

I orffen gofynnais a oedd gan Karla unrhyw gyngor i bobl sy'n dysgu Cymraeg. Dyma ei hateb:

Dylan nhw ddefnyddio SSiW achos mae'n wych iawn, a dylan nhw drïo ymarfer mor aml a phosib.